Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Ymchwiliad dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi**

Adroddiad ac argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddir o dan adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyfeirnod YCI003

Dyddiad cyhoeddi: 8  Mehefin 2026

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyd-destun | 1 |
| 2 | Sail yr ymchwiliad | 2 |
| 3 | Yr ymchwiliad | 4 |
| 4 | Y dystiolaeth | 6 |
| 5 | Casgliadau | 13 |
| 6 | Argymhellion | 18 |

# Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad ymchwiliad hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn unol ag adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn sgil trosglwyddo swyddogaethau perthnasol o dan y Ddeddf i'r Comisiynydd drwy gyfres o offerynnau statudol.

## Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

- Cydymffurfio â chynlluniau – Ymchwiliadau

  Cynhelir ymchwiliad i'r posibilrwydd o fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith o dan adran 17 y Ddeddf:

  > *17. – (1) Lle ymddengys i'r Bwrdd[1], boed yn sgil cwyn a wnaed iddo o dan adran 18 isod neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad er mwyn gweld a fu methiant.*
  >
  > *(2) Bydd y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon yn gyfryw ac y cred y Bwrdd ei bod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos, ac yn arbennig gellir cynnal ymchwiliad yn breifat.*

- Cydymffurfio â chynlluniau – Cwynion am fethu â chydymffurfio

  Mae adran 18 y Ddeddf yn gymwys lle gyflwynir cwyn gan berson am fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith:

  > *18. – (1) Mae'r adran hon yn gymwys –*
  >
  > *(a) lle cyflwynir cwyn ysgrifenedig i'r Bwrdd gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi effeithio'n uniongyrchol arno,*
  >
  > *(b) lle gwneir y gwyn o fewn cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y gwybu'r achwynydd gyntaf am y materion a honnir yn y gwyn, ac*
  >
  > *(c) lle y mae'r Bwrdd yn fodlon fod yr achwynydd wedi dod â'r mater y cwynir amdano i sylw'r corff cyhoeddus o dan sylw a bod y corff hwnnw wedi cael cyfle rhesymol i'w ystyried ac i ymateb.*
  >
  > *(2) Lle y mae'r adran hon yn gymwys, bydd y Bwrdd naill ai'n ymchwilio i'r gwyn honno o dan adran 17 uchod neu'n anfon datganiad o'i resymau dros beidio â gwneud at yr achwynydd.*

[1] Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth, 2012 a throsglwyddwyd y pŵer i ymchwilio i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill, 2012. Mae unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd yn y rhagair hwn yn gyfystyr â chyfeiriad at y Comisiynydd.

## Cydymffurfio â chynlluniau – Adroddiadau ar ymchwiliadau

Llunnir adroddiad o dan adran 19 y Ddeddf ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad:

> *19. – (1) Lle bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 17 uchod bydd yn anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad i'r corff cyhoeddus o dan sylw, at yr Ysgrifennydd Gwladol[2] ac, lle cynhelir yr ymchwiliad yn sgil cwyn a wnaed o dan adran 18 uchod, at yr achwynydd.*
>
> *(2) Lle cred y Bwrdd y byddai'n briodol i'r adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gael ei gyhoeddi, naill ai ar ffurf adroddiad a wneir o dan is adran (1) uchod neu ar ryw ffurf arall, caiff y Bwrdd drefnu ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.*
>
> *(3) Lle bydd y Bwrdd ar ôl gorffen ymchwiliad, yn fodlon bod y corff cyhoeddus dan sylw wedi methu â chyflawni'r cynllun, caiff y Bwrdd gynnwys yn ei adroddiad argymhellion ynghylch camau i'w cymryd gan y corff cyhoeddus er mwyn cywiro'r methiant neu er mwyn osgoi methiant yn y dyfodol.*

## Cydymffurfio â chynlluniau – Cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Os yw'r Comisiynydd o'r farn, yn dilyn llunio adroddiad, bod corff cyhoeddus wedi methu â gweithredu camau a argymhellwyd ganddi, caiff gyfeirio'r mater at y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg:

> *20. – (1) Os ymddengys ar unrhyw adeg i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd mewn adroddiad o dan adran 19 uchod, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.*
>
> *(2) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd a chan y corff cyhoeddus o dan sylw, fod y corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad, caiff roi'r cyfryw gyfarwyddiadau i'r corff cyhoeddus ag y cred y bo'n briodol.*
>
> *(3) Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan isadran (2) uchod, os gwneir cais ganddo, drwy gyfrwng mandamws.*

[2] Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, anfonir adroddiadau o dan adran 19 y Ddeddf at y Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

# 1 Cyd-destun

1.1 Mae gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi gynllun iaith Gymraeg a baratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf). Cafodd y cynllun iaith ei gymeradwyo ar 2 Medi 2025.

1.2 Mae'r cynllun iaith yn datgan fod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

1.3 Prif amcan yr adroddiad hwn yw dod i gasgliadau, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, ynglŷn â chydymffurfiaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF â chymalau penodol o'i gynllun iaith. Nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliadau ynghylch perfformiad cyffredinol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wrth gyflawni ei gynllun iaith.

1.4 Dyma'r ymchwiliad cyntaf a gynhaliwyd o dan adran 17 y Ddeddf yn achos y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Hoffai Comisiynydd y Gymraeg ddiolch i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF am ei gydweithrediad yn ystod yr ymchwiliad.

# 2 Sail yr ymchwiliad

2.1 Agorwyd yr ymchwiliad hwn ar fenter y Comisiynydd. Gwnaed hynny yn sgil y canlynol:

i) ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan Robert Jones o Brifysgol Caerdydd a Gregory Davies o Brifysgol Lerpwl, Rights, Pains and Illusions: The Experiences of Welsh-Speakers at Wales' 'Flagship' Prison, a oedd yn awgrymu nad yw hawliau sylfaenol siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn ddigonol yng ngharchardai Cymru

ii) pryderon a godwyd ynghylch gweithrediad cynllun iaith Gymraeg y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn dilyn ymweliad y Comisiynydd â Charchar y Berwyn, pan gafwyd cyfle i drafod y ddarpariaeth â staff a charcharorion.

2.2 Yn sgil y materion hyn, penderfynwyd cynnal ymchwiliad statudol dan adran 17 o'r Ddeddf i fethiant posibl gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF i gyflawni ei gynllun iaith Gymraeg.

2.3 Yn ystod yr ymweliad a'r sgyrsiau â charcharorion, disgrifiwyd enghreifftiau o sefyllfaoedd lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodir hefyd fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru.

2.4 Dyma grynodeb o'r materion a godwyd yn ystod y sgyrsiau rhwng y Comisiynydd â charcharorion yn CEF Berwyn:

**Darllediadau:** Nid yw S4C na Radio Cymru ar gael yn y celloedd. Nododd CEF Berwyn fod y trefniadau technegol yn gymhleth.

**Cymdeithasu:** Nodwyd anhawster i garcharorion Cymraeg ddod o hyd i'w gilydd, ynghyd ag awydd cryf i rannu celloedd â siaradwyr Cymraeg lle bo'n bosibl.

**Gohebiaeth:** Honnwyd bod llythyrau ac e-byst yn Gymraeg yn cymryd mwy o amser i gyrraedd, neu ddim yn cyrraedd o gwbl, ac wrth iddynt gael eu hanfon at deuluoedd.

**Gwasanaethau crefyddol:** Nid yw'r carcharorion o gymunedau Cymraeg yn gyfarwydd ag emynau Saesneg, a mynegwyd dymuniad i fynychu gwasanaethau capel yn Gymraeg yn wythnosol.

**Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:** Mae prinder cyfleoedd cyson i garcharorion siarad Cymraeg gyda'i gilydd.

**Adloniant:** Nid oes dewis o artistiaid a chaneuon Cymraeg ar y rhestr archebu cryno ddisgiau.

**Cymorth personol:** Nodwyd bod diffyg 'Gwrandawyr' Cymraeg' ar gael; roedd hyn yn bryder mawr gan nad yw'r carcharorion yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu hunain yn llawn drwy gyfrwng eu hail iaith na bod yn 'nhw eu hunain'.

**Prosesau swyddogol:** Mynegwyd pryder nad yw'r system 'Offender Supervisor' ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â diffyg rolau swyddi lle gellir defnyddio sgiliau Cymraeg.

**Prosesau disgyblu:** Mynegwyd dymuniad i allu dilyn ac ymwneud â phrosesau disgyblu o fewn y carchar drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Digwyddiadau teuluol:** Mynegwyd dymuniad i weld 'Dydd Teulu' yn cael ei drefnu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Staff Cymraeg:** Mae'r carcharorion o'r farn bod angen swyddogion Cymraeg i gefnogi carcharorion bregus; nodwyd fod ymddygiad yn gwella pan fo carcharorion yn gallu mynegi eu hunain yn Gymraeg.

**Addysg:** Nodwyd galw am well darpariaeth addysg i'r carcharorion, gan gynnwys yr awydd am gyrsiau ar ddiwylliant Cymru yn benodol.

2.5 Anfonwyd llythyr at y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar 27 Tachwedd 2025 yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth mewn perthynas â'r amheuaeth erbyn 5 Ionawr 2026.

2.6 Yn dilyn cais am estyniad, cafwyd ymateb i'r llythyr ar ffurf e-bost ar 23 Ionawr 2026.

2.7 Eglurwyd na dderbyniodd CEF Berwyn unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â charcharorion yn cael eu hatal rhag siarad Cymraeg ers 2021. Fodd bynnag, nododd ei fod yn ymwybodol bod enghreifftiau wedi cael eu rhannu gan garcharorion â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod ei hymweliad ym mis Tachwedd 2025. Ers hynny, adroddwyd un digwyddiad i aelod o staff, ac fe'i datryswyd gan uwch swyddog. Dywedwyd bod y carcharor yn fodlon â'r canlyniad, ac nad oedd yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol er iddo gael ei annog i wneud hynny.

2.8 Nodwyd nad oedd CEF Berwyn yn credu bod unrhyw wahaniaethau amlwg yn y ffordd y mae gohebiaeth Gymraeg yn cael ei thrin o'i chymharu â'r Saesneg. Dywedodd bod pob peth anfonir drwy'r post yn destun trefniadau diogelwch sy'n cynnwys profi am gyffuriau a llungopïo wrth gyrraedd, ac mai'r llungopi a roddir i'r carcharor.

2.9 Dywedwyd nad oes tystiolaeth i awgrymu bod llythyrau Cymraeg yn cael eu dal yn ôl nac yn cymryd mwy o amser i gyrraedd. Cofnodwyd un gŵyn ffurfiol yn ystod y 12 mis diwethaf ynghylch oedi gyda llythyrau Cymraeg; ar ôl ymchwilio, canfuwyd bod hyn oherwydd prinder staff yn yr ystafell bost, a effeithiodd ar bob llythyr, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.10 Eglurwyd nad yw llythyrau'n cael eu darllen cyn gadael y carchar, ond eu bod yn cael eu sgrinio er mwyn sicrhau nad yw carcharorion yn anfon gohebiaeth at unigolion nad ydynt yn cael cysylltu â nhw, a'u bod wedi rhoi eu henw a'u rhif carcharor ar gefn yr amlen. Dywedwyd bod modd i unrhyw aelod o staff wneud hyn, waeth beth fo'r iaith, ac felly nid oes rheswm y byddai oedi oherwydd bod llythyr yn Gymraeg.

2.11 Eglurwyd y gall oedi ddigwydd, beth bynnag fo'r iaith, wrth brosesu negeseuon e-bost sy'n destun monitro neu gyfyngiadau, gan fod angen eu darllen er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o dorri rheolau, ac nad yw cyfeiriadau e-bost yn enwi derbynwyr. Mae staff Swyddogion Cymorth Gweithredol (OSG) Cymraeg eu hiaith a gwasanaethau cyfieithu ar gael, ac yn cael eu defnyddio, i sicrhau bod y broses hon yn cael ei chyflawni ar gyfer e-byst Cymraeg.

# 3 Yr ymchwiliad

3.1 Penderfynwyd arfer ein pwerau o dan adran 17 y Ddeddf er mwyn cynnal ymchwiliad i ganfod a fu methiant gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i gyflawni'r cynllun iaith. Hysbyswyd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF o hyn ar 20 Tachwedd 2025.

3.2 Ar 27 Tachwedd 2025 anfonwyd llythyr at y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn egluro testun a threfn yr ymchwiliad ac yn gofyn cwestiynau ar gyfer cywain gwybodaeth. Eglurwyd y byddai'r ymchwiliad yn ystyried cyflawniad y cymalau canlynol o'r cynllun iaith:

***B. Cyflwyno Gwasanaethau***

*Bydd  a Phrawf EF Cymru yn sicrhau'r canlynol:*

1. *Creu amgylchedd dwyieithog gydag arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn mannau sy'n hygyrch i garcharorion a phobl ar brawf. Bydd arwyddion yn cael eu disodli gan fersiynau dwyieithog pan fydd angen iddynt gael eu disodli.*

2. *Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo hawliau carcharorion a phobl sydd ar brawf sy'n siarad Cymraeg.*

3. *Gofyn i garcharorion a phobl ar brawf cyn gynted â phosibl a yw'n well ganddynt ddefnyddio'r iaith Gymraeg, cofnodi hyn yn gywir ar systemau rheoli data carchardai a phrawf a'i fonitro'n rheolaidd ar lefel carchar, Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf a Chymru gyfan.*

4. *Caniatáu ceisiadau ychwanegol am unrhyw ddeunydd yn Gymraeg lle mae'n hysbys y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg.*

5. *Rhoi bathodynnau neu gortynnau gwddf i garcharorion a staff Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.*

6. *Darparu cyfleoedd i bobl ar brawf a phobl yn y carchar ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.*

7. *Sicrhau bod strwythurau ar waith i gael adborth gan siaradwyr Cymraeg ar eu profiadau o wasanaethau carchardai a phrawf.*

### *C. Ein gweithlu*

*Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru yn sicrhau'r canlynol:*

1. *Defnyddio'r data sydd gennym ar sgiliau iaith Gymraeg pobl ar brawf, pobl yn y carchar a'n staff i ddeall y galw am wasanaethau yn Gymraeg a'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu hyn.*

2. *Hysbysebu pob swydd wag yn ddwyieithog. Mae hyn yn berthnasol i swyddi staff parhaol a swyddi staff dros dro drwy asiantaethau.*

3. *Asesu a yw bob swydd a hysbysebir yn nodi bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol.*

4. *Cynnal ymgyrchoedd recriwtio dwyieithog; gan roi'r opsiwn o gael mynediad at bob cam o'n prosesau recriwtio yn Gymraeg a gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer ceisiadau dilynol.*

5. *Parhau i nodi'r Gymraeg fel sgil ddymunol ym mhob swydd yng Nghymru a nodi lle mae'n sgil hanfodol.*

6. *Enwebu Hyrwyddwyr y Gymraeg ar draws swyddogaethau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru, i helpu i hyrwyddo a chyflawni ymrwymiadau'r Cynllun.*

3.3 Nodwyd y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn breifat gan dîm Gosod ac Ymchwilio'r Comisiynydd, ac y byddai'n dilyn y camau canlynol:

1. Derbyn gwybodaeth a thystiolaeth gan Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF erbyn 5 Ionawr 2026.

2. Cynnal dadansoddiad pen desg o'r wybodaeth ac ystyried yr angen i gasglu gwybodaeth bellach, er enghraifft trwy gyfarfod gyda swyddogion y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

3. Paratoi adroddiad drafft ar ganfyddiadau'r ymchwiliad a rhoi cyfle i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wirio ei ffeithiau.

4. Anfon copi o'r adroddiad terfynol at y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

5. Cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

3.4 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cydymffurfiaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF gyda chymalau penodol o'i gynllun iaith. Mae wedi'i seilio ar wybodaeth a thystiolaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF mewn llythyr dyddiedig 23 Ionawr 2026, ynghyd ag ymweliad i CEF Berwyn.

# 4 Y dystiolaeth

### Ystyriaeth 1

Roedd amheuaeth nad oedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

***B. Cyflwyno Gwasanaethau***

*Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru yn sicrhau'r canlynol:*

1. *Creu amgylchedd dwyieithog gydag arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn mannau sy'n hygyrch i garcharorion a phobl ar brawf. Bydd arwyddion yn cael eu disodli gan fersiynau dwyieithog pan fydd angen iddynt gael eu disodli.*

2. *Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo hawliau carcharorion a phobl sydd ar brawf sy'n siarad Cymraeg.*

3. *Gofyn i garcharorion a phobl ar brawf cyn gynted â phosibl a yw'n well ganddynt ddefnyddio'r iaith Gymraeg, cofnodi hyn yn gywir ar systemau rheoli data carchardai a phrawf a'i fonitro'n rheolaidd ar lefel carchar, Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf a Chymru gyfan.*

4. *Caniatáu ceisiadau ychwanegol am unrhyw ddeunydd yn Gymraeg lle mae'n hysbys y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg.*

5. *Rhoi bathodynnau neu gortynnau gwddf i garcharorion a staff HMPPS Cymru sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.*

6. *Darparu cyfleoedd i bobl ar brawf a phobl yn y carchar ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.*

7. *Sicrhau bod strwythurau ar waith i gael adborth gan siaradwyr Cymraeg ar eu profiadau o wasanaethau carchardai a phrawf.*

4.1 Yn ei ymateb, nododd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, mewn perthynas â threfniadau yng Ngharchar y Berwyn, fod hawliau carcharorion i siarad Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n barhaus drwy fforymau carcharorion Cymraeg eu hiaith, a bod y rhain wedi eu hailsefydlu ym mis Hydref 2025. O fis Ionawr 2026 ymlaen, eglurodd y bydd yn cynnig fforymau misol i nifer llai o garcharorion er mwyn gallu cynnal trafodaethau

ynghylch materion neu bryderon penodol. Bydd y rhain yn cael eu hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg gan Arweinydd y Gymraeg y carchar.

4.2 Dywedodd bod posteri *Croeso i'r Gymraeg Yma* wedi cael eu harddangos ar draws y sefydliad, er mwyn ei gwneud yn glir:

i) y bydd y carchar yn cyfieithu gwybodaeth i'r Gymraeg

ii) bod ymwelwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg

iii) bod carcharorion yn gallu siarad Cymraeg â'i gilydd, ac

iv) y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

4.3 Yng nghyd-destun CEF Berwyn, eglurodd y bydd rhwydwaith o wirfoddolwyr Cymraeg sy'n garcharorion yn cael ei sefydlu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, a chefnogi carcharorion sy'n siarad Cymraeg. Derbyniwyd cadarnhad bod 4 Hyrwyddwr Carcharorion Cymraeg (sy'n cael eu cefnogi gan Arweinydd y Gymraeg) wedi bod yn eu swyddi ers Ionawr 2026.

4.4 Yn dilyn pryderon a amlygwyd yn ddiweddar yn sgil ymweliad Comisiynydd y Gymraeg a CEF y Berwyn, ac ymchwil a wnaed gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Lerpwl, nododd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF fod hysbysiad dwyieithog wedi'i anfon at garcharorion ym mis Tachwedd 2025. Roedd yr hysbysiad hwn yn eu hatgoffa o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd ac wrth siarad ag eraill. Atgoffwyd hwy hefyd i wneud cofnod o unrhyw rwystrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar y *Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau Gwahaniaethu* (DIRF). Eglurwyd bod y DIRF wedi ei diwygio yn ddiweddar i gynnwys categori penodol sef 'Y Gymraeg'.

4.5 Nododd bod yr ymgyrch Hawliau'r Gymraeg bron a'i chwblhau. Ymgyrch yw hon eglurodd sy'n rhoi gwybodaeth i garcharorion ar sut i wneud cwyn a'u hatgoffa o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo drwy dechnoleg yn y celloedd a phosteri parhaol.

4.6 Dywedodd bod staff ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn cael eu cyfeirio at dîm canolog y Gymraeg ar gyfer ymholiadau a chymorth cyfieithu. Mae hyfforddiant newydd yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod o staff, i'w gyflwyno erbyn Gwanwyn 2026. Ychwanegodd y bydd briff pellach yn atgyfnerthu hawliau siaradwyr Cymraeg ym mis Ionawr 2026, a bod staff eisoes wedi'u hatgoffa o'r dogfennau a'r ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â'r gwasanaeth cyfieithu llafar.

4.7 Ychwanegodd bod CEF Berwyn wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o gynllun cyfieithu peilot cenedlaethol sy'n cael ei weithredu gan ddeallusrwydd artiffisial (DA), am gyfnod o naw mis yn ystod 2026. Bydd y system yn gallu darparu cyfieithu neu ddehongli DA amser real ar gyfer sgyrsiau anffurfiol rhwng staff a charcharorion.

4.8 Yn dilyn sylwadau'r Comisiynydd ar ôl ei hymweliad â CEF Berwyn (gweler 2.4), eglurodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF bod un aelod o staff rhan amser yn nhîm y Gaplaniaeth yn gallu siarad Cymraeg, a bod y gwasanaethau crefyddol eisoes yn cynnwys gweddïau yn Gymraeg.

4.9 Yn dilyn adborth pellach mewn llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ôl yr ymweliad, nodwyd y bu ymgynghori â charcharorion ar wasanaethau crefyddol. Nodwyd mai'r dull

gweithredu a ffafrir fyddai datblygu rhagor o gynnwys dwyieithog ar draws ystod y gwasanaethau crefyddol.

4.10 Eglurwyd fod cyfweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer Rheolwr Caplan newydd yn CEF Berwyn, gyda'r disgwyl y bydd yr unigolyn yn ei swydd erbyn Gwanwyn 2026. Bydd rhan o'r rôl yn cynnwys adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg, a gwneud gwelliannau ar sail adborth gan garcharorion.

4.11 Nododd bod CEF Berwyn yn annog carcharorion i ddefnyddio'r llwybrau cwynion ffurfiol sydd ar gael iddynt, er mwyn galluogi'r carchar i ymchwilio'n llawn a chymryd camau lle bo angen.

4.12 Eglurodd bod dewis iaith pob carcharor, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn cael ei gofnodi yn dilyn cael cyfweliad ar y noson gyntaf. Cofnodir y wybodaeth hon ar gofnod NOMIS/DPS4 y carcharor, a gellir ei diweddaru os bydd carcharor yn datgelu'n ddiweddarach ei fod yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu mewn iaith nad yw eisoes wedi'i chofnodi.

4.13 Ym mis Tachwedd 2025, cyflwynwyd trefniadau newydd i ychwanegu manylion carcharorion newydd sy'n dewis y Gymraeg at gronfa ddata'r Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau bod y carcharorion hynny'n cael eu gwahodd i fforymau a digwyddiadau Cymraeg yn y dyfodol.

4.14 Ers Ionawr 2026, cadarnhawyd bod carcharorion yn gallu cael mynediad at S4C a sianeli teledu Cymraeg eraill yn CEF Berwyn, ynghyd â Radio Cymru. Derbyniwyd diweddariad pellach a thystiolaeth gan y gwasanaeth yn cadarnhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn parhau'n weithredol.

4.15 Eglurwyd y gallai rhai carcharorion wynebu oedi byr cyn cael gafael ar sianeli yn sgil yr angen i ail-diwnio setiau teledu yn dilyn diweddariadau technegol. Fodd bynnag, nodwyd bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael a'r mater dros dro hwn yn amserol. Bydd ein swyddog cyswllt yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa ac yn trafod y trefniadau gyda CEF Berwyn i sicrhau bod y mater wedi'i ddatrys yn brydlon.

4.16 Mae'n rhaid i bob carchar ledled Cymru a Lloegr ddefnyddio darparwr gwasanaeth sain dan gontract cenedlaethol, nad yw ar hyn o bryd yn catalogio caneuon nac artistiaid o Gymru. Fodd bynnag, eglurwyd bod modd i garcharorion archebu'r rhain gan Amazon drwy Hwb Busnes y carchar.

4.17 Hyd yma, ni chafwyd unrhyw archebion nac ymholiadau. Derbyniwyd, fodd bynnag, y gall carcharorion beidio a bod yn ymwybodol o'r broses. Bellach mae canllawiau diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi, ac mae gwybodaeth wedi cael ei rannu â charcharorion ynghylch sut mae cyflwyno archebion drwy fforymau Cymraeg.

4.18 Cadarnhawyd bod y diffyg darpariaeth Gymraeg drwy'r darparwr dan gontract wedi cael ei uwch gyfeirio fel mater o bryder i'r tîm cenedlaethol perthnasol.

4.19 Eglurodd fod CEF Berwyn wedi comisiynu nifer o ymweliadau gan beirianwyr, cynnal asesiadau safle, prynu setiau teledu a thiwnwyr teledu newydd, ar gost ariannol sylweddol i'r sefydliad.

4.20 Dywedodd bod gweithgareddau eisoes ar waith i annog defnydd o'r Gymraeg yn CEF Berwyn. Mae'r rhain yn cynnwys Clwb Darllen Cymraeg sy'n cael ei gynnal yn y llyfrgell

bob yn ail wythnos, yn ogystal â Diwrnod i'r Teulu ar thema Gymreig ym mis Hydref 2025.

4.21 Ymhellach i hynny, mae adrannau addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn annog carcharorion Cymraeg eu hiaith i greu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Er enghraifft, mae dosbarth Graffeg wedi cynhyrchu cardiau Nadolig Cymraeg yn ddiweddar, yn ogystal â chynnal gweithdai dylunio addurniadau Nadolig Cymraeg.

4.22 Eglurwyd fod dau lyfr gwaith Cymraeg yn cael eu cyhoeddi gan yr Adran Addysg i'w cwblhau yn y gell a bod gwersi Cymraeg yn cael eu darparu ganddynt. Nodwyd, fodd bynnag, mai ychydig o ddiddordeb sydd yn y ddarpariaeth hon er bod nifer o aelodau staff yr adran yn siarad Cymraeg.

4.23 Cadarnhawyd y bydd CEF Berwyn yn parhau i ehangu'r ystod o weithgareddau a rhaglenni i annog defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys:

- Rhaglen o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer 2026 i ddathlu iaith a diwylliant Cymru, gan ddechrau gyda Dydd Santes Dwynwen. Mae carcharorion yn gallu gwneud eu cardiau cyfarch Cymraeg eu hunain i'w hanfon at anwyliaid, neu ddewis o ddetholiad o gardiau Cymraeg a ddarperir gan y carchar.
- gwersi hanes Cymraeg, a addysgir yn Gymraeg, gan Brifysgol Bangor i garcharorion sy'n siarad Cymraeg (ar eu cais) yn ystod mis Ionawr 2026.
- diwrnod i'r teulu, Cymraeg ei iaith, a drefnwyd ddiwedd mis Chwefror i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, a nododd ei fod wedi cael derbyniad da.

4.24 Dywedodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF y dylid cefnogi carcharorion i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws pob agwedd ar fywyd y carchar, a bod mesur nifer y cyfleoedd sydd ar gael yn heriol. Bydd CEF Berwyn yn parhau i gasglu adborth drwy fforymau Cymraeg i sicrhau bod rhagor o gyfleoedd sydd ar gael i garcharorion yn cael eu harchwilio a'u defnyddio i'r eithaf.

4.25 Eglurodd bod pob carcharor sy’n siarad Cymraeg (sy’n cydsynio), â'r symbol swigen ‘Cymraeg’ ar eu cerdyn adnabod y tu allan i'w celloedd, sy'n caniatáu i staff a charcharorion eraill eu hadnabod. Mae pob carcharor sydd wedi dewis y Gymraeg bellach yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata Gymraeg, sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau a fforymau Cymraeg.

4.26 Dywedodd bod adborth o fforymau bellach yn cael ei gasglu a'i drafod mewn Tasglu’r Gymraeg bob pythefnos yn CEF Berwyn, ac mae Hyrwyddwr y Gymraeg, Arweinydd y Gymraeg, ac uwch reolwyr perthnasol y carchar yn bresennol.

4.27 Bydd adborth ac awgrymiadau gan garcharorion yn cael eu hychwanegu at Gynllun Gweithredu’r Gymraeg y carchar ar gyfer cynnydd ac olrhain.

4.28 Bydd cofnodion a chamau gweithredu'r fforwm yn cael eu storio ar sianel Microsoft Teams bwrpasol, a bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn cyfieithu cofnodion o'i gyfarfod misol o'r Cyngor Carchar i'r Gymraeg ac yn sicrhau eu bod ar gael i bob carcharor drwy dechnoleg yn y celloedd.

4.29 Eglurodd bod gofynion polisi cenedlaethol ar waith i sicrhau bod trefniadau rhannu celloedd yn blaenoriaethu rheoli risg yn effeithiol, ac yn cadw carcharorion yn ddiogel. Yn

amodol ar y gofynion hyn, eglurodd y bydd siaradwyr Cymraeg yn rhannu celloedd yn cael ei hwyluso lle bynnag y bo modd.

4.30 Dywedodd bod proses gynefino'r carchar yn cael ei diwygio i ofyn i bob carcharor sy'n nodi ei fod yn siarad Cymraeg, a yw'n dymuno rhannu cell â siaradwr Cymraeg arall. Cofnodir hyn ar NOMIS (system TG fewnol y gwasanaeth Carchardai) a'i hwyluso oni bai bod y capasiti gweithredol yn atal hyn.

### Ystyriaeth 2:

Roedd amheuaeth nad oedd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi cyflawni'r cymal canlynol yn ei gynllun iaith:

## C. Ein gweithlu

Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru yn sicrhau'r canlynol:

1. Defnyddio'r data sydd gennym ar sgiliau iaith Gymraeg pobl ar brawf, pobl yn y carchar a'n staff i ddeall y galw am wasanaethau yn Gymraeg a'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu hyn.

2. Hysbysebu pob swydd wag yn ddwyieithog. Mae hyn yn berthnasol i swyddi staff parhaol a swyddi staff dros dro drwy asiantaethau.

3. Asesu a yw bob swydd a hysbysebir yn nodi bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol.

4. Cynnal ymgyrchoedd recriwtio dwyieithog; gan roi'r opsiwn o gael mynediad at bob cam o'n prosesau recriwtio yn Gymraeg a gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer ceisiadau dilynol.

5. Parhau i nodi'r Gymraeg fel sgil ddymunol ym mhob swydd yng Nghymru a nodi lle mae'n sgil hanfodol.

6. Enwebu Hyrwyddwyr y Gymraeg ar draws swyddogaethau HMPPS Cymru, i helpu i hyrwyddo a chyflawni ymrwymiadau'r Cynllun.

4.31 Eglurwyd bod gan yr holl staff sy'n siarad Cymraeg fynediad at fathodynnau a chortynnau gwddf i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, a bod yr adnoddau wedi cael eu hailddosbarthu yn ddiweddar.

4.32 Anogir holl staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Yn ogystal, cadarnhawyd bod Arweinydd y Gymraeg llawn amser (Cymraeg ei iaith) a benodwyd yn

wreiddiol am gyfnod o flwyddyn, bellach wedi ei recriwtio'n barhaol gyda'r nod o wella a chryfhau darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg y carchar.

4.33 Eglurwyd fod Gwrandawyr yn wirfoddolwyr sy'n garcharorion wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i ddarparu cymorth i eraill yn y ddalfa. Ar hyn o bryd, nodwyd mai un Gwrandäwr sy'n siarad Cymraeg yn y swydd, ac mae carcharorion yn gallu gofyn am gefnogaeth.

4.34 Eglurwyd bod recriwtio i'r rôl hon yn dibynnu ar garcharorion yn gwirfoddoli, yn ogystal â gallu'r Samariaid i hyfforddi gwirfoddolwyr newydd.

4.35 Dywedodd bod trefniadau ar y gweill i sicrhau bod y logo Cymraeg yn cael ei arddangos ar Grysau-T Gwrandawyr sy'n siarad Cymraeg fel ei bod yn hawdd eu hadnabod.

4.36 Nodwyd bod 28 aelod o staff, ar 30 Medi 2025, wedi datgan eu bod yn siarad Cymraeg. O'r rhain, dywedodd 15 eu bod yn rhugl, a dywedodd 13 fod ganddynt sgiliau sylfaenol. Eglurwyd y bydd CEF Berwyn yn parhau i annog staff i ddatgelu eu gallu yn y Gymraeg.

4.37 Cadarnhawyd nad oes 'Goruchwyliwr Troseddwyr' (POM) sy'n siarad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd. Eglurodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF y byddai'n delio â hyn drwy ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg o adrannau eraill, a chyfieithu gwybodaeth berthnasol.

4.38 Eglurodd bod rôl y POM wedi cael ei hasesu'n ddiweddar yn erbyn Fframwaith Asesu Sgiliau Cymraeg newydd HMPPS Cymru. O ganlyniad, bydd rolau fel POM, Swyddog Carchar ac OSG yn cael eu recriwtio gyda gofyniad Cymraeg hanfodol.

4.39 Er bod swyddi yng Nghymru wedi arfer cael eu hysbysebu'n ddwyieithog yn gyson, dywedodd bod newidiadau diweddar i systemau recriwtio'r Llywodraeth wedi amharu ar hynny ac wedi lleihau cysondeb ar draws sawl adran.

4.40 Eglurodd nad yw'r her hon yn unigryw i CEF Berwyn na HMPPS Cymru, a bod trafodaethau'n digwydd gyda'r adrannau canolog perthnasol i geisio dod o hyd i atebion.

4.41 Cadarnhawyd bod data ar garcharorion a staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hadolygu'n chwarterol gan Fwrdd Gweithredu'r Gymraeg HMPPS Cymru, sy'n goruchwylio cynnydd yn erbyn Cynllun y Gymraeg yng Nghymru.

4.42 Nodwyd bod dadansoddi data'n gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd y niferoedd cymharol isel o staff sydd wedi datgan eu gallu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Asesu Sgiliau Cymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i bob adran yn CEF Berwyn ystyried y galw posibl am wasanaethau Cymraeg yn lleol, ynghyd â'r capasiti presennol, wrth recriwtio i rolau presennol a newydd.

4.43 Disgwylir i bob carchar yng Nghymru benodi Hyrwyddwr y Gymraeg, fel sydd wedi ei wneud yng Ngharchar y Berwyn. Cadarnhawyd mai rôl wirfoddol yw hon, gyda'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Arwain ar weithgareddau Cymraeg yn eu sefydliad, gan gynnwys darparu Fforymau Cymraeg ar gyfer carcharorion.

- Datblygu a bwrw ymlaen â Chynllun Gweithredu'r Gymraeg sy'n benodol i'w sefydliad, sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r Cynllun.

- Mynychu cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Gweithredu'r Gymraeg HMPPS Cymru, gweithredu ar unrhyw geisiadau gan y Bwrdd, a darparu adroddiad chwarterol ar weithgareddau.

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a hawliau'r cyhoedd (gan gynnwys carcharorion) i ddefnyddio'r Gymraeg, ar draws eu sefydliadau.

4.44 Mae CEF Berwyn wedi cydnabod yr angen am adnoddau ychwanegol yn ogystal â rôl Hyrwyddwr y Gymraeg. O ganlyniad, mae wedi penodi Arweinydd y Gymraeg llawn amser yn barhaol. Mae CEF Berwyn hefyd yn bwriadu archwilio dichonolrwydd creu rôl Swyddog y Gymraeg - swydd carcharor cyflogedig - yn seiliedig ar adborth gan wirfoddolwyr Cymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt.

# 5 Casgliadau

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn dod i farn ynghylch cydymffurfiaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF â'i gynllun iaith Gymraeg, gyda ffocws penodol ar y trefniadau gweithredol yn CEF Berwyn lle bo hynny'n berthnasol.

### Casgliad 1: Cyflwyno Gwasanaethau

Roedd amheuaeth nad oedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

***B. Cyflwyno Gwasanaethau***
*Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru yn sicrhau'r canlynol:*

1. *Creu amgylchedd dwyieithog gydag arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn mannau sy'n hygyrch i garcharorion a phobl ar brawf. Bydd arwyddion yn cael eu disodli gan fersiynau dwyieithog pan fydd angen iddynt gael eu disodli.*

2. *Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo hawliau carcharorion a phobl sydd ar brawf sy'n siarad Cymraeg.*

3. *Gofyn i garcharorion a phobl ar brawf cyn gynted â phosibl a yw'n well ganddynt ddefnyddio'r iaith Gymraeg, cofnodi hyn yn gywir ar systemau rheoli data carchardai a phrawf a'i fonitro'n rheolaidd ar lefel carchar, Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf a Chymru gyfan.*

4. *Caniatáu ceisiadau ychwanegol am unrhyw ddeunydd yn Gymraeg lle mae'n hysbys y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg.*

5. *Rhoi bathodynnau neu gortynnau gwddf i garcharorion a staff HMPPS Cymru sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.*

6. *Darparu cyfleoedd i bobl ar brawf a phobl yn y carchar ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.*

7. *Sicrhau bod strwythurau ar waith i gael adborth gan siaradwyr Cymraeg ar eu profiadau o wasanaethau carchardai a phrawf.*

5.2 Adeiladwyd CEF Berwyn i fod yn garchar Cymreig, gyda'r bwriad o greu amgylchedd mwy cefnogol i bobl gogledd Cymru, ac yn benodol i siaradwyr Cymraeg. Berwyn oedd y carchar cyntaf yng Nghymru i'w adeiladu'n gyfan gwbl ers cyflwyno cynlluniau iaith Gymraeg mewn carchardai, gan ymgorffori'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol a nodwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993. Dyma'r cyd-destun y dylid barnu arferion y carchar ym Merwyn ynddo.

5.3 Mae mwy o hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn carchardai yng Nghymru nag yn Lloegr, yn sgil y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg a sefydlir gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yng Nghymru o ran gofal a chymorth.

5.4 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Golyga y gall y Comisiynydd ddyfarnu a yw rhywun wedi ymyrryd â rhyddid dau berson arall i siarad Cymraeg â'i gilydd, er enghraifft drwy nodi na ddylen nhw ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd neu achosi anfantais iddynt am wneud hynny. Sefyllfaoedd mewn carchardai y byddai'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn berthnasol iddynt yw sgyrsiau â chyd-garcharorion, ymweliadau, a galwadau ffôn neu ohebiaeth â phobl y tu allan i'r carchar. Dim ond o fewn Cymru y mae'r hawl hon yn bodoli.

5.5 Yn ystod ymweliad y Comisiynydd â CEF Berwyn, a thrwy sgyrsiau â charcharorion, clywyd am enghreifftiau o unigolion yn cael eu rhwystro rhag siarad Cymraeg â'i gilydd. Mae'r enghreifftiau hyn yn codi pryderon difrifol ynghylch parch at hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol siaradwyr Cymraeg.

5.6 Nododd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn ei ymateb nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion am garcharorion yn cael eu hatal rhag siarad Cymraeg â'i gilydd ers 2021, er iddo gydnabod bod un digwyddiad wedi codi ym mis Tachwedd 2025, a gafodd ei ddatrys yn fewnol.

5.7 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn ymateb yn bennaf i'r honiadau a godwyd yn ystod ymweliad y Comisiynydd. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth hon yn adlewyrchu'n llawn y sefyllfa fel yr oedd cyn yr ymweliad hwnnw, nac yn cydnabod yn eglur y pryderon a nodwyd yn adran 2.4 yr adroddiad hwn.

5.8 Mae'r dystiolaeth fodd bynnag yn nodi bod newid cadarnhaol wedi cymryd lle, gyda chamau penodol wedi'u cymryd yn dilyn ymweliad y Comisiynydd. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Ail-sefydlu a hyrwyddo hawliau carcharorion i siarad Cymraeg yn Hydref 2025
- Sefydlu fforymau misol i drafod materion neu bryderon yn Gymraeg o Ionawr 2026
- Sefydlu rhwydwaith o 4 gwirfoddolwr Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg erbyn diwedd Ionawr 2026
- Adnewyddu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r staff erbyn Gwanwyn 2026
- Cymryd rhan mewn cynllun cyfieithu peilot cenedlaethol yn ystod 2026
- Penodi Rheolwr Caplan newydd erbyn Gwanwyn 2026 i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau crefyddol yn dilyn adborth gan garcharorion
- O Ionawr 2026 bydd modd i garcharorion gael mynediad at S4C a Radio Cymru
- Diwygio'r canllawiau i gynorthwyo carcharorion i archebu cerddoriaeth o Gymru drwy Hwb Busnes y carchar
- Rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer 2026 i ddathlu iaith a diwylliant Cymru

- Gwersi hanes Cymraeg, yn Gymraeg, gan Brifysgol Bangor ar gais y carcharorion yn Ionawr 2026
- Diwrnod i'r Teulu yn Gymraeg ar gyfer mis Mawrth 2026

5.9 Ceir hefyd enghreifftiau pellach o ymateb i adborth carcharorion, megis adolygu dyraniad ymchwiliad DIRF, darparu gwersi hanes yn Gymraeg mewn addysg, a nodi carcharorion sy'n siarad Cymraeg ar gardiau celloedd.

5.10 Wrth gyfeirio at gymalau perthnasol o'r cynllun iaith, nododd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF mai ar ôl cyfweliad ar y noson gyntaf y caiff dewis iaith carcharor ei gofnodi. Ychwanegodd fod trefniant wedi'i gyflwyno ym mis Tachwedd 2025 i ychwanegu manylion carcharorion newydd sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg at gronfa ddata'r Gymraeg. Nid yw'n eglur a oedd y trefniant hwn ar waith cyn ymweliad y Comisiynydd; fodd bynnag, mae'n awgrymu bod yr ymweliad wedi sbarduno'r carchar i ailystyried a chryfhau ei drefniadau mewnol o ran ei ymdriniaeth â'r Gymraeg.

5.11 Nododd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn CEF Berwyn i annog y defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys clwb darllen Cymraeg, diwrnod i'r teulu ar thema Gymreig (Hydref 2025), dosbarthiadau graffeg a dylunio, yn ogystal â gwersi a llyfrau Cymraeg.

5.12 Ystyrir hefyd y ffaith bod posteri *Croeso i'r Gymraeg Yma* yn cael eu harddangos ar draws y carchar. Er hynny, ceir darlun cymysg o ran argaeledd gwirioneddol gwasanaethau a'r cyfleoedd ymarferol i garcharorion siarad Cymraeg. Er enghraifft, er bod ymwybyddiaeth ymhlith carcharorion fod gwasanaethau Cymraeg i fod ar gael, daeth i'r amlwg drwy sgyrsiau anffurfiol nad oedd rhai o'r gwasanaethau a hysbysebwyd ar gael mewn gwirionedd ar adegau penodol.

5.13 Dywedodd y byddai'n parhau i gasglu adborth i gefnogi carcharorion i ddefnyddio'r Gymraeg drwy fforymau Cymraeg.

5.14 O ran adnabod siaradwyr Cymraeg, eglurodd fod pob carcharor sy'n cydsynio yn arddangos y symbol swigen 'Cymraeg' ar eu cerdyn adnabod ac y tu allan i'w cell. Nodwyd hefyd fod gan staff sy'n siarad Cymraeg fynediad at fathodynnau a chortynnau gwddf, er na roddwyd manylion ynghylch faint o'r rhain sy'n cael eu defnyddio yn ymarferol, nac a yw staff sy'n eu gwisgo yn fodlon defnyddio'r Gymraeg yn weithredol. Ychwanegwyd bod yr adnoddau hyn wedi cael eu hailddosbarthu'n ddiweddar.

5.15 Ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng ngharchardai Cymru, a dylai unigolion allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, yn deillio o ymweliad y Comisiynydd â CEF Berwyn ac o adroddiad ymchwiliad Prifysgol Bangor a Phrifysgol Lerpwl, yn awgrymu nad oedd yr addewid hwn o gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei wireddu i raddau helaeth cyn ymweliad y Comisiynydd.

5.16 Er gwaethaf y camau gwella a gymerwyd yn dilyn yr ymweliad hwnnw, mae'r trefniadau oedd ar waith yn CEF Berwyn cyn yr ymweliad, fel y nodwyd drwy dystiolaeth Prifysgol Lerpwl a Phrifysgol Caerdydd, yn adrodd stori wahanol. Y canfyddiad ymhlith nifer o garcharorion oedd fod ethos y cynllun iaith yn cael ei danseilio, ac nad oeddynt yn teimlo bod ganddynt:

- y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

- mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mynediad at weithgareddau Cymraeg
- anogaeth i ddefnyddio’r Gymraeg
- sicrwydd na fyddent o dan anfantais o ganlyniad i ddewis defnyddio’r Gymraeg.

5.17 Er mwyn mynd i’r afael â’r canfyddiadau hyn, mae’n amlwg bod angen parhau â gwaith pellach a chymryd camau pendant er mwyn sicrhau bod egwyddorion ac ymarfer y cynllun iaith yn cael eu gweithredu’n gyson ac yn effeithiol.

### Casgliad 2: Ein gweithlu

Roedd amheuaeth nad oedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi cyflawni’r cymalau canlynol o’i gynllun iaith:

**C. Ein Gweithlu**

Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru yn sicrhau’r canlynol:

1. Defnyddio’r data sydd gennym ar sgiliau iaith Gymraeg pobl ar brawf, pobl yn y carchar a’n staff i ddeall y galw am wasanaethau yn Gymraeg a’r adnoddau sydd gennym i ddiwallu hyn.

2. Hysbysebu pob swydd wag yn ddwyieithog.  Mae hyn yn berthnasol i swyddi staff parhaol a swyddi staff dros dro drwy asiantaethau.

3. Asesu a yw bob swydd a hysbysebir yn nodi bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol.

4. Cynnal ymgyrchoedd recriwtio dwyieithog; gan roi’r opsiwn o gael mynediad at bob cam o’n prosesau recriwtio yn Gymraeg a gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer ceisiadau dilynol.

5. Parhau i nodi’r Gymraeg fel sgil ddymunol ym mhob swydd yng Nghymru a nodi lle mae’n sgil hanfodol.

6. Enwebu Hyrwyddwyr y Gymraeg ar draws swyddogaethau HMPPS Cymru, i helpu i hyrwyddo a chyflawni ymrwymiadau’r Cynllun.

5.18 Er mwyn cydymffurfio â’r cymalau uchod, mae disgwyl i’r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF sicrhau bod ei drefniadau asesu, hysbysebu a recriwtio staff yn rhoi ystyriaeth briodol i’r Gymraeg, gan gynnwys lle mae’r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer cyflawni dyletswyddau penodol.

5.19 Mae ystyried anghenion ieithyddol unigolion yn rhan annatod o gefnogi llesiant. Er enghraifft, gellir cymhwyso rhai o ganfyddiadau Ymholiad Gofal Sylfaenol y Comisiynydd yn 2015 i'r berthynas rhwng carcharorion ag awdurdodau'r carchar. Dangosodd yr ymholiad hwn fod siaradwyr Cymraeg yn teimlo:

- eu bod yn gallu mynegi eu hanghenion yn well drwy gyfrwng y Gymraeg
- bod gallu siarad Cymraeg mewn ymgynghoriadau yn bwysig o ran parch ac urddas
- bod cydnabod dewis iaith yn rhan bwysig o gydnabod a pharchu eu hunaniaeth.

5.20 Ystyrir bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi penodi Arweinydd y Gymraeg Cymraeg ei iaith i CEF Berwyn yn barhaol, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir. Mae hyn yn awgrymu bod y carchar ei hun yn cydnabod bod cyfleoedd pellach i gryfhau'r trefniadau presennol.

5.21 Nodwyd bod 28 aelod o staff CEF Berwyn wedi datgan eu bod yn medru siarad rhywfaint o Gymraeg, gyda lefelau gallu'n amrywio o sgiliau sylfaenol i rhuglder llawn.

5.22 Ystyrir nad oes Goruchwyliwr Trosedd (POM) Cymraeg ei iaith ar gael ar hyn o bryd, ac eglurwyd y byddai unrhyw anhawster yn cael ei liniaru drwy ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg i gyfieithu.

5.23 Yn dilyn asesiad diweddar o'r rôl hon, nodwyd y bwriedir recriwtio dau aelod staff ychwanegol lle caiff y Gymraeg ei nodi'n sgil hanfodol.

5.24 Cydnabuwyd bod hysbysebu swyddi'n ddwyieithog wedi lleihau'n raddol oherwydd newidiadau i systemau recriwtio'r Llywodraeth, ac nad yw'r her hon yn unigryw i CEF Berwyn nac i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

5.25 Nodwyd hefyd fod dadansoddi data ar sgiliau Cymraeg staff yn gyfyngedig, oherwydd y nifer gymharol isel o staff sydd wedi datgan gwybodaeth neu allu yn y Gymraeg.

5.26 Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith bod Arweinydd y Gymraeg wedi'i benodi'n barhaol ac i'r posibilrwydd o benodi Swyddog y Gymraeg yn y dyfodol, fel rhan o gryfhau capasiti'r gweithlu.

5.27 Ymddengys bod CEF Berwyn wedi adolygu ei weithdrefnau ac wedi cymryd camau pendant yn dilyn ymweliad y Comisiynydd ym mis Tachwedd 2025. Mae hyn yn cynnwys ailystyried trefniadau mewnol a rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn cydymffurfio'n fwy effeithiol â gofynion y cynllun iaith, er mai trefniadau a ddylai fod wedi bod mewn lle eisoes yw rhain.

5.28 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y camau a nodwyd gan CEF Berwyn yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg dros amser ac yn rhoi mwy o hyder i garcharorion Cymraeg eu hiaith fod gwasanaethau Cymraeg ar gael iddynt, a'u bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd lle bo hynny'n briodol.

5.29 Yn wyneb y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, ac o ystyried ei natur, mae'n anodd dod i gasgliad pendant fod y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi methu â chydymffurfio â chymalau B ac C o'i gynllun iaith ar yr achlysur hwn.

# 6 Argymhellion

6.1 Er bod yr ymchwiliad hwn wedi nodi pryderon sylweddol ynghylch profiadau rhai carcharorion o ran defnyddio’r Gymraeg, mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig o ran ei chwmpas a’i natur. O ganlyniad, ac fel y nodwyd yn Adran 5, nid oedd modd dod i gasgliad pendant fod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi methu â chydymffurfio â’i gynllun iaith Gymraeg ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd.

6.2 Fodd bynnag, mae’r ymchwiliad wedi amlygu meysydd lle mae lle clir i gryfhau trefniadau, gwella eglurder, a chynyddu hyder carcharorion Cymraeg eu hiaith yn ymarferoldeb y ddarpariaeth. Yn y cyd-destun hwn, ac er mwyn cefnogi gwelliant parhaus a hyrwyddo egwyddorion y cynllun iaith Gymraeg, cyflwynir yr argymhellion canlynol o dan adran 19 y Ddeddf.

**Argymhelliad 1: Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant**
Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF barhau i gryfhau ymwybyddiaeth staff o'r Gymraeg, gan gynnwys ymrwymiadau'r cynllun iaith a’r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori’n gyson mewn hyfforddiant cychwynnol a pharhaus.

**Argymhelliad 2: Gweithio gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder**
Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF weithio gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi a gweithredu dulliau effeithiol er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon a mesuradwy yn nifer y staff sy’n cofnodi eu sgiliau iaith, gan gefnogi cynllunio’r gweithlu, hwyluso paru sgiliau â galw, a chryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg.

**Argymhelliad 3: Capasiti’r gweithlu**
Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, yn enwedig wrth recriwtio staff newydd, sicrhau bod ganddo gapasiti digonol o staff â sgiliau Cymraeg priodol er mwyn darparu gwasanaethau Cymraeg i garcharorion mewn modd cyson a dibynadwy.

**Argymhelliad 4: Eglurder ar ddefnyddio’r Gymraeg**
Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF gymryd camau pellach i wneud yn gwbl glir i garcharorion a staff fod modd i garcharorion gyfathrebu drwy’r Gymraeg â’i gilydd ac â chysylltiadau allanol, gan nodi’n glir ac yn dryloyw unrhyw amgylchiadau cyfyngedig lle na chaiff hynny ei ganiatáu.

**Argymhelliad 5: Data a chynllunio gwasanaethau**
Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF sicrhau bod data cyson a chywir ynghylch dewis iaith a gallu Cymraeg carcharorion yn cael ei gasglu, ei gynnal a’i ddefnyddio’n weithredol er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol.

**Argymhelliad 6: Trefniadau lleoli carcharorion**
Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF adolygu ei drefniadau er mwyn hwyluso, lle bo’n briodol ac yn weithredol bosibl, lleoli carcharorion sy’n dymuno derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gyda’i gilydd, gan gydymffurfio â gofynion diogelwch a rheoli risg.

### Argymhelliad 7: Cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF barhau i ddatblygu a chefnogi cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol, yn CEF Berwyn ac mewn carchardai eraill.

### Argymhelliad 8: Diwylliant sefydliadol

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF lunio a gweithredu cynllun gweithredu clir i gefnogi newid diwylliannol o ran statws a defnydd y Gymraeg mewn carchardai yng Nghymru, gan sicrhau bod egwyddorion y cynllun iaith yn cael eu hymgorffori'n ymarferol ac yn gyson ar draws y sefydliad.